Heddlu Police
DYFED-POWYS

## ADRAN SAFONAU PROFFESIYNOL

# ADRODDIAD BLYNYDDOL




2020/21

2020/21

# CYNNWYS

01 | CYFLWYNIAD 3

02 | CWYNION 4

03 | CAMYMDDYGIAD 14

04 | ATGYFEIRIADAU'R IOPC 18

05 | TABLAU DATA 20

# 01 CYFLWYNIAD

## Cefndir

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno data ar faterion Cwynion a Chamymddygiad sy'n ymwneud â swyddogion a staff Heddlu Dyfed-Powys am y cyfnod **1 Ebrill 2020 i 31 Mawrth 2021**. Mae'r data y cyfeirir ato yn yr adroddiad hwn wedi'i gofnodi ar System TG Cwynion a Chamymddygiad Heddlu Dyfed-Powys.

### Cwynion

Diffinnir cwynion fel adroddiadau o anfodlonrwydd a wneir gan aelodau o'r cyhoedd naill ai am ymddygiad pobl sy'n gwasanaethu gyda'r heddlu, neu sut mae heddlu'n cael ei redeg. Ymdrinnir â phob cwyn o dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002.

Mae heddluoedd yn delio â'r rhan fwyaf o gwynion, gyda'r Swyddfa Annibynnol ar gyfer Ymddygiad yr Heddlu (IOPC) yn ymdrin â'r achosion mwyaf difrifol a sensitif yn unig.

Os yw person yn anhapus â'r ffordd yr ymdriniwyd â'u cwyn, gallant apelio yn erbyn y canlyniad gan ddefnyddio eu hawl i ofyn am adolygiad o'r ffordd yr ymdriniwyd â'u cwyn. Cynhelir yr Adolygiad naill ai gan yr IOPC neu'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu lleol yn dibynnu ar amgylchiadau'r gŵyn.

### Ymddygiad

Mater yn ymwneud ag ymddygiad yw unrhyw fater nad yw'n destun cwyn ac nad yw wedi bod yn destun cwyn, lle ceir arwydd y gallai person sy'n gwasanaethu gyda'r heddlu fod wedi cyflawni trosedd neu ymddwyn mewn modd a fyddai'n cyfiawnhau achosion disgyblu.

### Achosion o Gamymddygiad

Os canfyddir, o ganlyniad i ymchwiliad i gŵyn neu ymddygiad, fod gan swyddog neu aelod o staff achos i'w ateb am gamymddygiad neu gamymddygiad difrifol, gellir eu cyfeirio at achosion disgyblu.

Cynhelir Cyfarfod Camymddygiad pan fydd achos i'w ateb am gamymddwyn a chynhelir Gwrandawiad Camymddygiad yn yr achosion lle y gallai fod achos i'w ateb am gamymddygiad difrifol.

Cynhelir Gwrandawiadau Camymddygiad bob amser yn gyhoeddus, er y gall y Cadeirydd i'r achos osod unrhyw gyfyngiadau ar bresenoldeb neu adrodd. Fel arfer, cynhelir Gwrandawiadau Camymddygiad gan Gadeirydd annibynnol sydd â Chymwysterau Cyfreithiol, a gefnogir gan un aelod annibynnol o'r panel ac un aelod o banel yr heddlu.

### Atgyfeiriadau

Rhaid cyfeirio rhai materion sy'n dod i sylw'r heddlu at yr IOPC, sydd wedyn yn penderfynu a fyddant yn ymchwilio i'r mater eu hunain neu'n cyfeirio'r mater yn ôl at yr heddlu. Mae rhagor o fanylion am atgyfeiriadau ac esboniad o'r hyn y dylid ei gyfeirio at yr IOPC ar gael ar eu gwefan yma

## Effaith newidiadau i ddeddfwriaeth 2020

Ar 1 Chwefror 2020, cyflwynwyd deddfwriaeth newydd a arweiniodd at

newidiadau sylweddol i'r system gwynion a'r ffordd yr ymdrinnir â chamymddwyn.

Cyn newidiadau 2020, ni chofnodwyd cwynion a gafodd eu trin yn anffurfiol y tu allan i gwmpas Deddf Diwygio'r Heddlu ar systemau'r heddlu. Mae hyn bellach wedi newid ac mae pob cwyn, boed yn cael ei thrin yn anffurfiol neu'n ffurfiol, bellach yn cael ei chofnodi.

O ganlyniad, mae'r data ar gyfer 2020/21 yn dangos cynnydd yn nifer y cwynion. Nid yw hyn yn golygu bod mwy o gwynion erbyn hyn, ond yn hytrach mae'r data bellach yn cynnwys cwynion, na chawsant eu cofnodi o'r blaen.

Oherwydd y newidiadau hyn a'r gwahanol brosesau a gyflwynwyd, nid yw'r data yn yr adroddiad hwn yn debyg i ffigurau'r flwyddyn flaenorol.

Cyflwynodd y newidiadau hefyd y Broses Adolygu Ymarfer Myfyriol, sy'n ddull newydd a ddefnyddir i fynd i'r afael â diffygion mewn perfformiad neu ymddygiad, nad oedd yn golygu bod angen gwrandawiadau ffurfiol.

Mae rhywfaint o'r data a gasglwyd yn yr adroddiad hwn yn ymwneud â chwynion neu faterion ymddygiad a gofnodwyd cyn i'r ddeddfwriaeth newid. Mewn rhai achosion cyflwynir y data hwn ar wahân yn yr adroddiad.

# 02 CWYNION

### Nifer y Cwynion a Dderbyniwyd


Gall un gŵyn gynnwys un neu fwy o honiadau. Er enghraifft, gall person honni eu bod yn cael eu gwthio gan swyddog a bod y swyddog yn anghwrtais iddynt. Byddai hyn yn cael ei gofnodi fel dau honiad ar wahân yn ffurfio un achos cwyn.

Felly, er mwyn deall yn llawn faint o gwynion a dderbyniwyd, mae angen i ni edrych ar nifer yr achosion o gwynion a chyfanswm nifer yr honiadau a dderbyniwyd.

Mae'r data a gynhyrchir isod yn seiliedig ar y dyddiad y derbyniwyd y gŵyn yn yr heddlu.

Yn 2020/21 cofnododd Heddlu Dyfed-Powys **755 o gwynion** sy'n cynnwys cyfanswm o **1031 honiadau**.

**Ffigur 1:** **Achosion o gwynion a honiadau a dderbyniwyd yn Heddlu Dyfed-Powys**





## Natur y cwynion a dderbyniwyd

Caiff pob honiad ei gofnodi a neilltuir Categori Honiad Cwyn yr IOPC iddynt. Gall un gŵyn gynnwys un neu fwy o'r categorïau.

Diben y categorïau yw casglu natur yr anfodlonrwydd a fynegir mewn cwyn.


**Ffigur 2:** Natur yr honiadau mewn cwynion a dderbyniwyd rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021




## Ffactorau Cwyno Cenedlaethol

Yn ogystal â defnyddio categorïau cwynion i ddal natur yr anfodlonrwydd, defnyddir ffactorau cwyno cenedlaethol hefyd i gasglu cyd-destun sefyllfaol y gŵyn a rhoi darlun cyfoethocach o'r hyn y mae pobl yn cwyno amdano. Yn wahanol i gategorïau honiadau mewn cwynion, gellir dewis nifer o ffactorau cwyno ar gyfer un honiad. O ganlyniad, ni fydd swm y ffactorau cwyno yn hafal i gyfanswm yr honiadau a gofnodwyd.

**Ffigur 3:** **Ffactorau sefyllfaol a gasglwyd ar gyfer honiadau mewn cwynion a dderbyniwyd rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021**




## Sut yr ymdrinnir â chwynion

Pan dderbynnir cwyn, bydd yr heddlu'n aml yn gallu datrys y gŵyn yn gyflym heb fod angen ei chofnodi'n ffurfiol o dan ddarpariaethau Atodlen 3 i Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002. Cyfeirir at y math hwn o adferiad gwasanaeth neu drin anffurfiol fel rhai a ***Ymdriniwyd y tu allan i Atodlen 3***.

Os oes angen ymchwilio ymhellach i gŵyn neu os nad yw'n addas ymdrin â hi'n anffurfiol, bydd yr heddlu'n cofnodi'r mater yn ffurfiol ac yn ymdrin ag ef o dan Atodlen 3 i Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002.


Bydd y rhan fwyaf o gwynion yn cael eu trin heb ymchwiliad, ond mewn rhai amgylchiadau bydd yr heddlu'n cynnal ymchwiliad i'r gŵyn.

Cynhelir ymchwiliad os bernir mai dyma'r ffordd fwyaf rhesymol a chymesur o fynd i'r afael â chwyn, ond rhaid ymchwilio i rai cwynion bob amser.

Ar adegau, bydd arwydd y gallai'r ymddygiad y cwynir amdano fod yn drosedd neu gall gyfiawnhau achos o gamymddwyn. Yn yr achosion hyn ymchwilir i'r gŵyn o dan ***Ofynion Arbennig***.

Mae'r data a gynhyrchir isod yn ymwneud â'r holl gwynion a gwblhawyd yn ystod 2020/21. Derbyniwyd rhai o'r cwynion cyn mis Chwefror 2020 ac fe'u trafodwyd yn unol â'r ddeddfwriaeth cyn 2020.

**Ffigur 4:** Ymdrin â chwynion, a gwblhawyd rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021




## Canlyniadau Cwynion

Bydd canlyniad y gŵyn yn dibynnu ar sut yr ymdriniwyd â'r gŵyn.


Mae unrhyw gwynion a ymdrinnir â hwy y tu allan i Atodlen 3 naill ai'n *Datryswyd* neu *Ni Ddatryswyd*. Rhaid i unrhyw gŵyn a ymdrinnir â hi yn ffurfiol o dan atodlen 3 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu ddod i benderfyniad ynghylch a oedd y gwasanaeth a ddarparwyd gan yr heddlu yn dderbyniol ai peidio.

Mae canlyniad ar wahân wedi'i gofnodi ar gyfer pob honiad. Felly gallai un gŵyn feddu ar ganlyniadau lluosog yn dibynnu ar nifer yr honiadau a gofnodwyd.


Mae'r data a gyflwynir isod yn seiliedig ar honiadau mewn cwynion a gwblhawyd yn ystod y cyfnod 2020/21.

Derbyniwyd rhai o'r cwynion hyn cyn mis Chwefror 2020 ac ymdriniwyd â hwy o dan ddeddfwriaeth cyn 2020 lle cymhwyswyd canlyniadau gwahanol. Er hwylustod, cyflwynir y data hwn mewn siart ar wahân.

**Ffigur 5:** Canlyniadau'r honiadau a gwblhawyd o dan Reoliadau 2020 rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021




**Ffigur 6:** Canlyniadau'r honiadau a gwblhawyd o dan Reoliadau 2012 rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021




## Perfformiad trin cwynion

### Amseroldeb

Mae'r ffigurau amseroldeb isod yn seiliedig ar yr amser y mae'n ei gymryd i Heddlu Dyfed-

Powys ymdrin â chwyn person o'r dyddiad y byddwn yn derbyn y gŵyn hyd at y dyddiad rydym yn darparu'r canlyniad ysgrifenedig i'r person sy'n gwneud y gŵyn.

**5**

Nifer cyfartalog y diwrnodau gwaith i ymdrin â chwyn y tu allan i Atodlen 3


**61**

Nifer cyfartalog y diwrnodau gwaith i ymdrin â chwyn heblaw drwy ymchwiliad

**123**

Nifer cyfartalog y diwrnodau gwaith i ymchwilio i gŵyn

**Ffigur 7:** Nifer cyfartalog y diwrnodau gwaith i gwblhau honiadau mewn cwynion




## Adolygiadau:

Er mwyn apelio yn erbyn canlyniad cwyn, rhaid i'r person a wnaeth y gŵyn gyflwyno cais am adolygiad i'r corff adolygu perthnasol.

Yn dibynnu ar amgylchiadau'r gŵyn, y Corff Plismona Lleol fydd hwn, sef y Comisiynydd

Heddlu a Throseddu yn Heddlu Dyfed-Powys, neu'r IOPC.

Mae'r Corff Adolygu Perthnasol yn penderfynu a oedd canlyniad y gŵyn yn rhesymol ac yn gymesur ai peidio.

Mae'r data a ddarperir isod yn ymwneud ag Adolygiadau a dderbyniwyd ac a gwblhawyd yn 2020/21.

### ADOLYGIADAU'R CORFF PLISMONA LLEOL

| 47 | 11 | 23% |
|---|---|---|
| Nifer yr Adolygiadau a gwblhawyd | Nifer a gadarnhawyd fel rhai nad ydynt yn rhesymol ac yn gymesur | Fel canran |

### ADOLYGIADAU'R IOPC

| 16 | 0 | 0% |
|---|---|---|
| Nifer yr Adolygiadau a gwblhawyd | Nifer a gadarnhawyd fel rhai nad ydynt yn rhesymol ac yn gymesur | Fel canran |


### Gwybodaeth i Achwynwyr

Mae'r adran hon yn cyflwyno data ar aelodau o'r cyhoedd a gyflwynodd gŵyn yn ystod 2020/21. Mewn rhai achosion, efallai fod mwy nag un person wedi gwneud cwyn felly gall y


ffigurau fod yn wahanol i nifer y cwynion a dderbyniwyd.

Mae'r data'n seiliedig ar y wybodaeth a roddwyd i'r heddlu gan yr achwynydd.


**Ffigur 8:** Rhywedd yr achwynwyr, 1 Ebrill 2020 i 31 Mawrth 2021




**Ffigur 9:** Ethnigrwydd yr achwynwyr, 1 Ebrill 2020 i 31 Mawrth 2021





**Ffigur 10:** Oedran yr achwynwyr, 1 Ebrill 2020 i 31 Mawrth 2021





### Personau y Cwynwyd Amdanynt

Mae'r adran hon yn cyflwyno data ar y swyddogion neu'r staff sydd wedi bod yn destun cwyn a dderbyniwyd yn ystod 2020/21. Gall cwynion ymwneud ag un person neu nifer o bobl. Mewn rhai achosion, efallai fod yr un person wedi bod yn destun mwy nag un gŵyn yn ystod y cyfnod, ac os felly dim ond unwaith y cânt eu cyfrif.


**Ffigur 11:** Statws gwrthrychau cwynion, 1 Ebrill 2020 i 31 Mawrth 2021



**Ffigur 12:** Rhywedd gwrthrychau cwynion, 1 Ebrill 2020 i 31 Mawrth 2021




**Ffigur 13:** Ethnigrwydd gwrthrychau cwynion, 1 Ebrill 2020 i 31 Mawrth 2021



# 03 CAMYMDDYGIAD

## Achosion Ymddygiad

Pan gyfeirir mater yn ymwneud ag ymddygiad at Adran Safonau Proffesiynol yr heddlu, crëir achos Ymddygiad.


Cynhelir asesiad cychwynnol o'r achos i benderfynu a oes arwydd y byddai'r mater, os profir ei fod, yn gyfystyr â chamymddygiad neu gamymddygiad difrifol.

Os nad oes unrhyw arwydd, ystyrir wedyn a ddylid trin y mater fel mater perfformiad yn lle hynny neu a ddylid cymryd unrhyw gamau pellach.

Os oes arwydd y gallai'r mater fod yn gyfystyr â chamymddygiad neu gamymddygiad difrifol, cynhelir Ymchwiliad Ymddygiad. Ar ôl cwblhau'r ymchwiliad, gwneir penderfyniad pellach ynghylch a oes gan y person sy'n destun yr ymchwiliad achos i'w ateb am gamymddygiad neu gamymddygiad difrifol.

Mae'r siart canlynol yn dangos y canlyniadau ar gyfer pob achos Ymddygiad a gwblhawyd yn ystod 2020/21.

**Ffigur 14:** **Canlyniadau Achosion Ymddygiad a gwblhawyd rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021**





## Personau oedd yn destun achos Ymddygiad


Mae'r adran yn cyflwyno data ar y swyddogion neu'r staff sydd wedi bod yn destun achos Ymddygiad sydd wedi'i gyfeirio at yr Adran Safonau Proffesiynol yn ystod 2020/21. Gall un person neu fwy nag un person fod yn destun un achos ymddygiad.

Os yw'r un person wedi bod yn destun mwy nag un achos ymddygiad yn ystod 2020/21, dim ond unwaith y cânt eu cyfrif.


**Ffigur 15:** Statws y personau oedd yn destun achos ymddygiad, 1 Ebrill 2020 i 31 Mawrth 2021




**Ffigur 16:** Rhywedd y personau oedd yn destun achos ymddygiad, 1 Ebrill 2020 i 31 Mawrth 2021



**Ffigur 17:** Ethnigrwydd y personau oedd yn destun achos ymddygiad, 1 Ebrill 2020 i 31 Mawrth 2021




### Gwrandawiadau camymddygiad a gynhaliwyd yn 2020/21

Ar ôl cwblhau ymchwiliad Ymddygiad neu ymchwiliad i Gwynion (a oedd yn ddarostyngedig i Ofynion Arbennig) gwneir penderfyniad ynghylch a oes gan y person neu'r personau sy'n destun yr ymchwiliad achos i'w ateb am gamymddygiad neu achos i'w ateb am gamymddygiad difrifol.

Mae camymddygiad yn torri Safonau Ymddygiad Proffesiynol yr heddlu. Mae Camymddygiad Difrifol yn torri'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol sydd mor ddifrifol fel eu bod yn cyfiawnhau diswyddo.

Os oes achos i'w ateb am gamymddygiad, cyfeirir y swyddog dan sylw at Gyfarfod Camymddygiad, lle gall y sancsiynau ymestyn i rybudd ysgrifenedig terfynol.

Os oes achos i'w ateb am Gamymddygiad Difrifol, bydd y swyddog yn cael ei gyfeirio at Wrandawiad Camymddygiad, a allai arwain at ddiswyddo.

Mae proses ychydig yn wahanol i staff yr heddlu gan fod Rheoliadau Ymddygiad yr Heddlu yn berthnasol i swyddogion yr heddlu yn unig. Mae staff yr heddlu, gan gynnwys Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, yn ddarostyngedig i Bolisi Camymddygiad Staff Heddlu Dyfed-Powys.

Diben Cyfarfod Camymddygiad neu Wrandawiad Camymddwyn yw penderfynu a wnaeth y swyddog dan sylw dorri safonau ymddygiad proffesiynol mewn gwirionedd ac os felly pa gosb y dylent ei chael.

**Ffigur 18:** Manylion yr Achosion Camymddygiad a gynhaliwyd yn 2020/21

| Dyddiad | Cyfarfod/ Gwrandawiad | Safle / Rôl | Manylion | Safonau Ymddygiad Proffesiynol wedi'u torri | Canfyddiad | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Mai 2020 | Gwrandawiad Achos Arbennig | Cwnstabl | Cymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol gyda chydweithiwr tra oeddent ar ddyletswydd | Ymddygiad Annheilwng, Dyletswyddau a Chyfrifoldebau | Camymddwyn Difrifol | Byddent wedi cael eu diswyddo* |
| Mai 2020 | Cyfarfod | Cwnstabl | Ymddwyn mewn modd ymosodol tuag at ddefnyddwyr eraill y ffordd tra oeddent oddi ar ddyletswydd. I ddechrau, gwnaethant wadu'r digwyddiad pan gawsant eu holi gan oruchwyliwr yn ddiweddarach. | Ymddygiad Annheilwng | Camymddygiad | Rhybudd Ysgrifenedig Terfynol |
| Mehefin 2020 | Gwrandawiad Achos Arbennig | Cwnstabl | Defnydd afresymol a gormodol o rym, gan gynnwys defnyddio chwistrell PAVA ar garcharor mewn gefynnau. | Defnyddio grym, Awdurdod, Parch a Chwrteisi, ymddygiad annheilwng | Camymddygiad Difrifol | Byddent wedi cael eu diswyddo* |
| Gorffennaf 2020 | Cyfarfod | Cwnstabl | Tra oeddent oddi ar ddyletswydd, gwnaethant dorri'r Rheoliadau Coronafeirws | Ymddygiad Annheilwng | Camymddygiad | Rhybudd Ysgrifenedig |
| Medi 2020 | Cyfarfod | Cwnstabl | Ar sawl achlysur, gwnaethant wrthod gadw at orchymyn cyfreithiol ac roeddent yn amharchus i uwch swyddogion. | Awdurdod, Parch a Chwrteisi, Gorchmynion a Chyfarwyddiadau, Dyletswyddau a Chyfrifoldebau | Camymddygiad | Rhybudd Ysgrifenedig |
| Medi 2020 | Cyfarfod | Ditectif Gwnstabl | Tra oeddent oddi ar ddyletswydd, gwnaethant dorri'r Rheoliadau Coronafeirws | Ymddygiad Annheilwng | Camymddygiad | Rhybudd Ysgrifenedig |
| Tachwedd 2020 | Gwrandawiad Achos Arbennig | Ditectif Gwnstabl | Tra oeddent oddi ar ddyletswydd, gwnaethant ymosod ar eu priod a hefyd ymosod ar gydweithiwr | Ymddygiad Annheilwng | Camymddygiad Difrifol | Rhybudd Ysgrifenedig Terfynol |
| Rhagfyr 2020 | Gwrandawiad | Cwnstabl | Arddangos ymddygiad o Orfodi a Rheoli mewn perthynas, a gwneud bygythiadau tuag at eu priod ac aelod arall o'r teulu. | Awdurdod, Parch a Chwrteisi, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, Ymddygiad Annheilwng | Camymddygiad Difrifol | Diswyddo heb Rybudd |

| Dyddiad | Cyfarfod/ Gwrandawiad | Safle / Rôl | Manylion | Safonau Ymddygiad Proffesiynol wedi'u torri | Canfyddiad | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Chwefror 2021 | Gwrandawiad | Cwnstabl | Cynnal chwiliadau ar systemau'r heddlu heb ddiben cyfreithlon ac yna datgelu'r wybodaeth hon yn anghyfreithlon yn ddiweddarach | Cyfrinachedd | Camymddygiad Difrifol | Byddant wedi cael eu diswyddo* |

*Ymddiswyddodd y swyddog cyn y Gwrandawiad Camymddygiad

# 04 ATGYFEIRIADAU'R IOPC

Gwneir atgyfeiriad i'r IOPC os yw cwyn neu fater sy'n ymwneud ag ymddygiad yn ymwneud â digwyddiad sydd wedi arwain at farwolaeth neu anaf difrifol neu os yw'r gŵyn neu'r mater sy'n ymwneud ag ymddygiad yn ymwneud â mater sy'n dod o fewn y meini prawf atgyfeirio gorfodol[1].

Rhaid atgyfeirio hefyd bob mater sy'n ymwneud â marwolaeth neu anaf difrifol (DSI).

Unwaith y bydd atgyfeiriad yn cael ei wneud, mae'r IOPC yn penderfynu a ddylid ymchwilio i'r mater ac os felly pa fath o ymchwiliad y dylid ei gynnal.

Mewn rhai achosion bydd yr IOPC yn ymchwilio i'r mater eu hunain; mewn achosion eraill byddant yn trosglwyddo'n ôl i'r heddlu i ymchwilio.

**Ffigur 19:** Achosion o gwynion a atgyfeiriwyd at yr IOPC, 2020/21

| | Penderfyniad yr IOPC | | |
|---|---|---|---|
| **Rheswm dros atgyfeirio** | **Heddlu i Ymdrin ag Ef** | **Ymchwiliad lleol** | **Cyfanswm** |
| Cam-drin awdurdod er budd rhywiol | | 1 | 1 |
| Trosedd neu ymddygiad gwahaniaethol sy'n debygol o arwain at ddisgyblaeth | 1 | | 1 |
| Marwolaeth neu anaf difrifol | | 4 | 4 |
| Ymosodiad difrifol | | 1 | 1 |
| Llygredd difrifol | | 3 | 3 |
| **Cyfanswm** | **1** | **9** | **10** |

**Ffigur 20:** Achosion Ymddygiad a atgyfeiriwyd at yr IOPC, 2020/21

| | Penderfyniad yr IOPC | | |
|---|---|---|---|
| **Rheswm dros atgyfeirio** | **Ymchwiliad annibynnol** | **Ymchwiliad lleol** | **Cyfanswm** |
| Cam-drin awdurdod er budd rhywiol | 3 | | 3 |
| Galwyd i Mewn | 1 | | 1 |
| Trosedd neu ymddygiad gwahaniaethol sy'n debygol o arwain at ddisgyblaeth | | 3 | 3 |
| Marwolaeth neu anaf difrifol | 1 | | 1 |
| Llygredd difrifol | | 1 | 1 |

[1] Pennir y meini prawf atgyfeirio gorfodol yn Rheoliad 4 a 7, Rheoliadau'r Heddlu (Cwynion a Chamymddygiad) 2020

| | Penderfyniad yr IOPC | | |
|---|---|---|---|
| Gwirfoddol | | 2 | **2** |
| **Cyfanswm** | **5** | **6** | **11** |

**Ffigur 21:** Atgyfeiriadau DSI, 2020/21

| | Penderfyniad yr IOPC | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Rheswm dros Atgyfeirio** | **Heddlu i Ymdrin ag ef** | **Ymchwiliad annibynnol** | **Ymchwiliad lleol** | **Cyfanswm** |
| Marwolaeth neu anaf difrifol | 6 | 1 | 6 | **13** |

# 05 TABLAU DATA

**Tabl 1:** Nifer yr Achosion o Gwynion a'r honiadau mewn cwynion a dderbyniwyd 01/04/2020 i 31/03/2021

| | Nifer yr Achosion o Gwynion a dderbyniwyd | Nifer yr honiadau a dderbyniwyd |
|---|---|---|
| Ebrill-20 | 63 | 98 |
| Mai-20 | 66 | 89 |
| Mehefin-20 | 89 | 124 |
| Gorffennaf-20 | 79 | 99 |
| Awst-20 | 65 | 92 |
| Medi-20 | 56 | 68 |
| Hydref-20 | 73 | 110 |
| Tachwedd-20 | 58 | 99 |
| Rhagfyr-20 | 42 | 51 |
| Ionawr-21 | 55 | 78 |
| Chwefror-21 | 42 | 47 |
| Mawrth-21 | 67 | 76 |
| **Cyfanswm** | **755** | **1031** |

**Tabl 2:** Categorïau Honiadau mewn Cwynion 01/04/2020 i 31/03/2021

| Categori | Is-Gategori | Cyfrif |
|---|---|---|
| Cyflawni dyletswyddau a gwasanaeth | Gweithredu gan yr heddlu yn dilyn cyswllt | 243 |
| | Penderfyniadau | 53 |
| | Gwybodaeth | 52 |
| | Lefel gyffredinol y gwasanaeth | 194 |
| | **Cyfanswm** | **542** |
| Pwerau, polisïau a gweithdrefnau'r heddlu | Stopio, a stopio a chwilio | 8 |
| | Chwilio eiddo ac atafaelu eiddo | 17 |
| | Pŵer i arestio a chadw | 22 |
| | Defnyddio grym | 59 |
| | Cadw yn nalfa'r heddlu | 14 |
| | Gweithdrefnau mechnïaeth, adnabod a chyfweld | 10 |
| | Gweithdrefnau tystiolaethol | 7 |
| | Gwarediadau y tu allan i'r llys | 3 |

| | | |
|---|---|---|
| | Polisïau a gweithdrefnau eraill | 37 |
| | **Cyfanswm** | **177** |
| Trin neu ddifrodi eiddo/adeiladau | Trin neu ddifrodi eiddo/adeiladau | 29 |
| | Cyflawni dyletswyddau a gwasanaeth | 1 |
| | Ymddygiad neu aflonyddu gormesol | 3 |
| | **Cyfanswm** | **33** |
| Mynediad a/neu ddatgelu gwybodaeth | Datgelu gwybodaeth | 28 |
| | Trin gwybodaeth | 10 |
| | **Cyfanswm** | **38** |
| Defnydd o gerbydau'r heddlu | Defnydd o gerbydau'r heddlu | 9 |
| | **Cyfanswm** | **9** |
| Ymddygiad gwahaniaethol | Ymddygiad Gwahaniaethol | 1 |
| | Anabledd | 1 |
| | Hil | 17 |
| | Crefydd neu gred | 1 |
| | Rhyw | 2 |
| | Cyfeiriadedd Rhywiol | 5 |
| | Llygredd sefydliadol | 2 |
| | **Cyfanswm** | **29** |
| Cam-drin safle/llygredd | Cam-drin safle at ddiben rhywiol | 1 |
| | Cam-drin safle at ddiben ariannol | 2 |
| | Rhwystro cyfiawnder | 6 |
| | Cam-drin safle at ddiben arall | 7 |
| | **Cyfanswm** | **16** |
| Ymddygiadau unigol | Iaith/cywair anghwrtais | 12 |
| | Gweithredoedd anghwrtais ac anoddefgar | 20 |
| | Agwedd amhroffesiynol a diffyg parch | 65 |
| | Diffyg tegwch a didueddrwydd | 20 |
| | Ymddygiadau gormesol ac aflonyddu | 43 |
| | **Cyfanswm** | **160** |
| Ymddygiad annheilwng | Ymddygiad annheilwng | 12 |
| | **Cyfanswm** | **12** |
| Arall | Arall | 7 |
| | **Cyfanswm** | **7** |
| | Gwag | 8 |
| **Cyfanswm** | | **1031** |

**Tabl 3:** **Ffactorau Cwyno Cenedlaethol 01/04/2020 i 31/03/2021**

| **Ffactor Cenedlaethol** | **Cyfrif** |
|---|---|
| Arestio | 107 |
| Trin Galwadau | 24 |
| Amddiffyn Plant | 34 |
| Coronafeirws | 98 |
| Gwarchodaeth | 38 |
| Marwolaeth | 10 |
| Cam-drin domestig/rhywedd | 76 |
| Cyffuriau/alcohol | 20 |
| Arfau tanio | 21 |
| Twyll | 2 |
| Troseddau casineb | 6 |
| Ymchwiliad | 289 |
| Iechyd meddwl | 55 |
| Person ar goll | 4 |
| Plismona yn y Gymdogaeth | 143 |
| Adeiladau | 28 |
| Digwyddiad Trefn Gyhoeddus | 7 |
| Offer Atal | 10 |
| Ffyrdd/traffig | 66 |
| Cyfryngau Cymdeithasol | 1 |
| Stopio a/neu Chwilio | 29 |
| Taser | 2 |
| Dim | 119 |
| **Cyfanswm** | **1189** |

**Tabl 4:** **Ymdrin â Chwynion 01/04/2020 i 31/03/2021**

| **Dull o Ymdrin** | **Cyfrif** |
|---|---|
| Rheoliadau 2012 | 115 |
| Y tu allan i Atodlen 3 | 177 |
| Atodlen 3 - Ymdriniwyd ag ef heblaw drwy ymchwiliad | 521 |
| Atodlen 3 - Ymchwilio | 39 |
| Atodlen 3 - Ymchwiliad Gofynion Arbennig | 4 |
| **Cyfanswm** | **856** |

**Tabl 5:** **Canlyniadau honiadau mewn cwynion a drafodwyd o dan Reoliadau 2012 01/04/2020 i 31/03/2021**

| Canlyniad | Nifer yr honiadau |
|---|---|
| De Recorded | 33 |
| Datgymhwyso - gan yr Heddlu | 2 |
| Heb ei barhau - gan yr Heddlu | 11 |
| Datrysiad Lleol | 35 |
| Heb ei Gadarnhau | 35 |
| Cadarnhau | 6 |
| Dim achos i'w ateb | 2 |
| **Cyfanswm** | **124** |

**Tabl 6:** **Canlyniadau honiadau mewn cwynion a drafodwyd o dan Reoliadau 2020 01/04/2020 i 31/03/2021**

| Canlyniad | Nifer yr honiadau |
|---|---|
| Nid oes angen cymryd camau pellach | 159 |
| Datryswyd | 242 |
| Ni Ddatryswyd | 41 |
| Roedd y gwasanaeth a ddarparwyd yn dderbyniol | 334 |
| Nid oedd y gwasanaeth a ddarparwyd yn dderbyniol | 61 |
| Heb benderfynu os oedd y gwasanaeth yn dderbyniol | 38 |
| Gofynion Arbennig | 3 |
| Tynnwyd yn ôl | 22 |
| **Cyfanswm** | **900** |

**Tabl 7:** Canlyniadau honiadau mewn cwynion a ymdriniwyd â hwy o dan Reoliadau 2020, yn ôl categori 01/04/2020 i 31/03/2021

| Categori | De Recorded | Datgymhwyso - gan yr Heddlu | Heb ei barhau - gan yr Heddlu | Datrysiad Lleol - yn ôl Is-adran | Datrysiad Lleol - gan PSD | Dim achos i'w ateb | Nid oedd angen cymryd camau pellach | Heb benderfynu os oedd y gwasanaeth yn | Ni Ddatryswyd - NFA | Heb ei gadarnhau - gan yr Is-adran | Heb ei gadarnhau - gan PSD | Datryswyd | Gofynion Arbennig | Roedd y gwasanaeth a ddarparwyd yn | Nid oedd y gwasanaeth a ddarparwyd yn | Cadarnhawyd - gan PSD | Tynnwyd yn ôl | Tynnwyd yn ôl - gan yr Heddlu | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cam-drin safle at ddiben ariannol | | | | | | | | | | | | | | 1 | | | | | 1 |
| Cam-drin safle at ddiben arall | | | | | | | | 1 | | | | | | 3 | 1 | | | | 5 |
| Cam-drin safle at ddiben rhywiol | | | | | | | | | | | | | | 1 | | | | | 1 |
| Gweithdrefnau mechnïaeth, adnabod a chyfweld | | | | | | | | | | | | | | 3 | | | | | 3 |
| Torri Cod C PACE | | | 3 | | | | | | | | | | | | | 1 | | | 4 |
| Ymarfer llwgr | | | | | | | | | | | 1 | | | | | | | | 1 |
| Penderfyniadau | 2 | | | | | | 11 | 1 | 4 | | | 15 | | 17 | 3 | | | | 53 |
| Cyflawni dyletswyddau a gwasanaeth | | | | | | | | | | | | | | 1 | | | | | 1 |
| Cadw yn nalfa'r heddlu | | | | | | | 1 | | | | | 1 | | 5 | 1 | | | | 8 |
| Datgelu gwybodaeth | | | | | | | 2 | 3 | | | | 1 | | 13 | 1 | | 2 | | 22 |
| Ymddygiad annheilwng | 1 | | | | | | 5 | 1 | 1 | | | 1 | | 2 | | | | | 11 |
| Ymddygiad Gwahaniaethol | | | | | | | | | | | 3 | | | | | | | | 3 |

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gweithdrefnau tystiolaethol | | | | | | | 2 | 1 | | | | 1 | | 2 | | | | | 6 |
| Lefel gyffredinol y gwasanaeth | 12 | | | | | | 21 | 1 | 17 | | | 103 | | 16 | 6 | | 2 | | 178 |
| Trin gwybodaeth | | | | | | | 1 | 1 | | | | | | 5 | 1 | | 1 | | 9 |
| Trin neu ddifrodi eiddo/adeiladau | 2 | | | | | | 6 | 2 | | | | 5 | | 12 | 3 | | | | 30 |
| Gweithredoedd anghwrtais ac anoddefgar | | | | | | | 1 | 4 | | | | 8 | | 2 | 1 | | | | 16 |
| Iaith/cywair anghwrtais | | | | | | | 1 | | | | | 10 | | 2 | 1 | | 1 | | 15 |
| Datgelu gwybodaeth yn amhriodol | | | | 1 | 1 | | | | | 1 | 2 | | | | | | | | 5 |
| Anfoesgarwch, anghwrteisi ac anoddefgarwch | | | 1 | 2 | 3 | | | | | | 1 | | | | | | | 1 | 8 |
| Gwybodaeth | | | | | | | 15 | 4 | 1 | | | 16 | | 12 | 10 | | | | 58 |
| Afreoleidd-dra mewn tystiolaeth/anudonedd | | | | | | | | | | | 1 | | | | | | | | 1 |
| Diffyg tegwch a didueddrwydd | 1 | 1 | 1 | | | | 1 | | 2 | | 2 | 3 | | 11 | 1 | 1 | | | 24 |
| Cam-drin eiddo | | | | | | | | | | 1 | | | | | | | | | 1 |
| Rhwystro cyfiawnder | | | | | | | 1 | | 1 | | | | | | | | | | 2 |
| Ymddygiad gormesol neu aflonyddu | | | | | | | | | | | 3 | | 1 | | | | | | 4 |
| Ymddygiad gormesol neu aflonyddu | | | | | 3 | | | | | 4 | 3 | | | | | 2 | | | 12 |
| Llygredd sefydliadol | | | | | | | 1 | | | | | | | 1 | | | | | 2 |
| Arall | 1 | | | | | | 2 | | 1 | | | 1 | | | | | | | 5 |
| Ymosodiad arall | | | 1 | | | | | | | 1 | 3 | | 2 | | | | | | 7 |

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Afreoleidd-dra arall yn y weithdrefn | | | | 1 | 4 | | | | | | 5 | | | | | | | | 10 |
| Esgeulustod neu fethiant arall mewn dyletswydd | | 1 | 4 | 11 | 9 | | | | | | 3 | | | | | 2 | | 1 | 31 |
| Polisïau a gweithdrefnau eraill | | | | | | | 6 | | 1 | | | 2 | | 18 | 1 | | 1 | | 29 |
| Gwarediadau y tu allan i'r llys | | | | | | | 1 | | | | | 1 | | | 1 | | | | 3 |
| Ymddygiadau gormesol neu aflonyddu | 1 | | | | | | 4 | 3 | | | | 3 | | 18 | 2 | | 2 | | 33 |
| Gweithredu gan yr heddlu yn dilyn cyswllt | 9 | | | | | | 48 | 7 | 7 | | | 53 | | 78 | 19 | | 4 | | 225 |
| Pŵer i arestio a chadw | | | | | | | 2 | | | | | | | 13 | | | 1 | | 16 |
| Hil | 1 | | | | | | 3 | 1 | | | | 2 | | 6 | 2 | | 1 | | 16 |
| Crefydd neu gred | | | | | | | | | | | | | | 1 | | | | | 1 |
| Chwilio adeilad ac atafaelu eiddo | 1 | | | | | | 2 | 1 | 1 | | | | | 8 | 2 | | | | 15 |
| Ymosodiad difrifol nad yw'n rhywiol | | | | | | | | | | | 1 | | | | | | | | 1 |
| Rhyw | | | | | | | | | | | | | | 2 | | | | | 2 |
| Cyfeiriadedd Rhywiol | | | | | | | 2 | | | | | 1 | | 2 | | | | | 5 |
| Stopio, a stopio a chwilio | | | | | | | 1 | | | | | 1 | | 4 | | | | | 6 |
| Arestio neu gadw'n anghyfreithlon/diangen | | | 1 | | | | | | | | | | | | | | | | 1 |
| Agwedd amhroffesiynol a diffyg parch | 2 | | | | | | 4 | 5 | 3 | | | 13 | | 28 | 5 | | 2 | | 62 |
| Defnyddio grym | | | | | | 2 | 12 | | | | | | | 43 | | | 2 | | 59 |
| Defnydd o gerbydau'r heddlu | | | | | | | | 2 | 2 | | | 1 | | 2 | | | | | 7 |
| (gwag) | | | | | | | 3 | | | | | | | 2 | | | 1 | | 6 |
| **Cyfanswm** | **33** | **2** | **11** | **15** | **20** | **2** | **159** | **38** | **41** | **7** | **28** | **242** | **3** | **334** | **61** | **6** | **20** | **2** | **1024** |

**Tabl 8:** Amser cyfartalog i gwblhau'r broses o ymdrin â chwynion (diwrnodau gwaith) 01/04/2020 i 31/03/2021

| | Ch 1 | Ch 2 | Ch 3 | Ch 4 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| **Y tu allan i Atodlen 3** | 4 | 12 | 3 | 2 | **5** |
| **Atodlen 3 - Ymdriniwyd â hi heblaw drwy ymchwiliad** | 41 | 54 | 70 | 77 | **61** |
| **Atodlen 3 - Ymchwiliad** | 186 | 91 | 109 | 104 | **123** |

**Tabl 9:** Adolygiadau a dderbyniwyd ac a gwblhawyd, 01/04/2020 i 31/03/2021

| | Canlyniad ddim yn rhesymol nac yn gymesur | | Canlyniad yn rhesymol ac yn gymesur | | Tynnwyd yn ôl | | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | Fel % | Nifer | Fel % | Nifer | Fel % | Nifer |
| **Adolygiadau LPB** | 11 | 23% | 36 | 77% | 0 | 0% | 47 |
| **Adolygiadau'r IOPC** | 0 | 0% | 14 | 88% | 2 | 13% | 16 |

**Tabl 10:** Rhywedd yr achwynwyr, 01/04/2020 i 31/03/2021

| | |
|---|---|
| Rhyngrywiol | 1 |
| Arall | 2 |
| Mae'n well gen i beidio â dweud | 14 |
| Anhysbys | 35 |
| Benyw | 317 |
| Gwryw | 404 |

**Tabl 11:** Ethnigrwydd yr achwynwyr, 01/04/2020 i 31/03/2021

| | |
|---|---|
| Arall | 1 |
| Du | 6 |
| Asiaidd | 8 |
| Gwell peidio â dweud | 45 |
| Heb ei nodi | 63 |
| Anhysbys | 289 |
| Gwyn | 361 |

**Tabl 12:** Oedran yr achwynwyr, 01/04/2020 i 31/03/2021

| | |
|---|---|
| 17 ac iau | 18 |
| 18-29 | 103 |
| 30-39 | 131 |
| 40-49 | 114 |
| 50-59 | 110 |
| 60 a throsodd | 68 |
| Anhysbys | 229 |

**Tabl 13:** Statws y personau sy'n destun cwyn, 01/04/2020 i 31/03/2021

| | |
|---|---|
| Swyddog Cefnogi Cymunedol | 27 |
| Staff Cadw dan Gontract | 1 |
| Staff eraill yr Heddlu | 31 |
| Swyddog yr Heddlu | 408 |
| Cwnstabl Gwirfoddol | 5 |
| **Cyfanswm** | **472** |

**Tabl 14:** **Rhywedd y personau sy'n destun cwyn, 01/04/2020 i 31/03/2021**

| | |
|---|---|
| Benyw | 150 |
| Gwryw | 315 |
| Anhysbys | 7 |
| **Cyfanswm** | **472** |

**Tabl 15:** **Ethnigrwydd y personau sy'n destun cwyn, 01/04/2020 i 31/03/2021**

| | |
|---|---|
| Asiaidd | 1 |
| Arall | 2 |
| Gwyn | 228 |
| Anhysbys | 221 |
| Heb ei nodi | 20 |
| **Cyfanswm** | **472** |

**Tabl 16:** **Canlyniadau Achosion Ymddygiad a gwblhawyd 01/04/2020 i 31/03/2021**

| | |
|---|---|
| Achos i'w Ateb - Gwrandawiad Camymddygiad | 2 |
| Achos i'w Ateb - Gwrandawiad Camymddygiad Staff | 2 |
| Achos i'w Ateb - Cyfarfod Camymddygiad | 4 |
| Achos i'w Ateb - Gweithred gan Reolwyr | 2 |
| Achos i'w Ateb - Dim Gweithredu | 1 |
| Dim Achos i'w Ateb - Ymarfer Myfyriol | 3 |
| Dim Achos i'w Ateb - Dim Gweithredu | 10 |
| Datgymhwyso | 2 |
| Dadgofrestru | 1 |
| **Cyfanswm** | **27** |

**Tabl 17:** **Statws y personau sy'n destun achos ymddygiad, 01/04/2020 i 31/03/2021**

| | |
|---|---|
| Swyddog Cefnogi Cymunedol | 4 |
| Staff Cadw dan Gontract | 1 |
| Staff eraill yr Heddlu | 4 |
| Swyddog yr Heddlu | 23 |
| Cwnstabl Gwirfoddol | 1 |
| **Cyfanswm** | **33** |

**Tabl 18:** **Rhywedd y personau sy'n destun achos ymddygiad, 01/04/2020 i 31/03/2021**

| | |
|---|---|
| Benyw | 17 |
| Gwryw | 16 |
| **Cyfanswm** | **33** |

**Tabl 19:** **Ethnigrwydd y personau sy'n destun achos ymddygiad, 01/04/2020 i 31/03/2021**

| | |
|---|---|
| Du | 1 |
| Gwyn | 16 |
| Anhysbys | 16 |
| **Cyfanswm** | **33** |